# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 10 Ionawr 2012** |
| Amser: | **09:30 - 11:05** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_10_01_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Carl Sargeant**<br>**Jeff Collins, Llywodraeth Cymru**<br>**Ian Davies, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Abigail Phillips (Clerc)**<br>**Rhodri Wyn Jones (Dirprwy Glerc)**<br>**Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon
Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2. Trafodaeth ynghylch y dystiolaeth a gafwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

#### 2.1P-03-136 Parcio yn y Mynydd Bychan a Birchgrove

Cytunodd y Pwyllgor i:
Ysgrifennu at Fwrdd Iechyd y Brifysgol yn gofyn am eglurhad ynghylch cyfarfodydd yn y dyfodol;
Ysgrifennu at Gyngor Caerdydd yn crynhoi trafodaethau'r Pwyllgor ac argymell fod y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r deisebwyr i ddatrys y problemau parcio;
Cau'r ddeiseb (ac eithrio'r ohebiaeth arferol at y deisebydd yn nodi'r rhesymau dros ei chau), yn amodol ar y llythyron hyn, unwaith y bydd wedi cael eglurhad.

#### 2.2P-03-221 Gwell triniaeth traed drwy'r GIG

Cytunodd y Pwyllgor i:
Aros nes i ganllawiau Gweinidogol gael eu cyhoeddi ynglŷn â'r mater.
**2.3P-03-222 Y Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol**

Cytunodd y Pwyllgor i:
Aros am argymhellion y Gweinidog ar ôl iddi ystyried adroddiad grŵp cynghori Cymru-gyfan ar osteoporosis ar eu harchwiliad o ddarpariaeth gwasanaethau cyswllt torri esgyrn, a fydd ar gael yn y flwyddyn newydd.

## 3. Deisebau newydd

**3.1P-04-351 Adalw CDLl (cynlluniau datblygu lleol)**

Cytunodd y Pwyllgor i:
Ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gofyn am ei farn ynghylch y mater.
**3.2P-04-352 Galwad i Achub Golchdy Stêm y Rhath**

Cytunodd y Pwyllgor i:
Ysgrifennu at CADW a'r deisebwyr yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa, ac ysgrifennu at Gyngor Caerdydd a'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn gofyn am eu barn.
**3.3P-04-353 Ymgyrch yn erbyn troseddau casineb yng Nghymru**

Cytunodd y Pwyllgor i:
Ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ a'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn gofyn am eu barn ac anfon copi at y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau.
**3.4P-04-354 Datganiad cyhoeddus yn cefnogi Bradley Manning**
**3.5**

Cytunodd y Pwyllgor i:
Ysgrifennu at y Swyddfa Gyflwyno yn gofyn am gadarnhad o'r canllawiau ynghylch Datganiadau Barn;
Ysgrifennu at Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol a'r Prif Weinidog yn gofyn am eu barn.
**3.6P-04-355 Cymru nid Wales**

Cytunodd y Pwyllgor i:
Ysgrifennu at y Deisebydd yn ei gynghori nad oes gan y Cynulliad Cenedlaethol na Llywodraeth Cymru y pŵer i newid yr enw'n swyddogol.
Ceisio cyngor annibynnol ynghylch tarddiad y gair 'Wales'.
Ysgrifennu at y Prif Weinidog a Chomisiwn y Cynulliad, wrth aros am ymateb y deisebydd, yn gofyn am eu barn ynghylch newid yr enw'n answyddogol.
**3.7P-04-356 Galwad i'r materion a osodwyd yn yr adroddiad ar bêl-droed yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2007 gael eu hadolygu.**

Cytunodd y Pwyllgor i:
Gyfeirio'r ddeiseb at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

**3.8P-04-357 Dyrannu Tai Cymdeithasol yng Nghymru**

Cytunodd y Pwyllgor i:
Ysgrifennu at y Prif Weinidog yn gofyn am ei farn a chyngor cyfreithiol.

**3.9P-04-359 Problemau gyda'r GIG ar gyfer y Byddar**

Cytunodd y Pwyllgor i:
Ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Gyhoeddi cais am dystiolaeth er mwyn deall maint y broblem yn well a chyfeirio tystiolaeth i'r grŵp trawsbleidiol ar faterion yn ymwneud â phobl fyddar.

## 4. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

**4.1P-03-227 Yn erbyn ffordd fynediad arfaethedig Metrix yn Llanmaes**

Cytunodd y Pwyllgor i:
Gau'r ddeiseb o ganlyniad i lythyr y Gweinidog sy'n nodi nad oes cynlluniau i fwrw ymlaen â'r ffordd arfaethedig.

**4.2P-03-252 Gwrthwynebu ffordd fynediad ogleddol canolfan y Llu Awyr Brenhinol, Sain Tathan (trigolion Trebefered)**

Cytunodd y Pwyllgor i:
Gau'r ddeiseb o ganlyniad i lythyr y Gweinidog sy'n nodi nad oes cynlluniau i fwrw ymlaen â'r ffordd arfaethedig.

**4.3P-03-318 Gwasanaethau mamolaeth trawsffiniol**

Cytunodd y Pwyllgor i:
Ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn iddi hysbysu'r Pwyllgor o unrhyw ddatblygiadau pellach unwaith y bydd cynllun cyflenwi lleol wedi'i ddatblygu.
Ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gofyn iddo barhau i adolygu'r mater.

**4.4P-03-308 Achub Theatr Gwent**

Cytunodd y Pwyllgor i:
Ysgrifennu at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn datgan pryderon y Pwyllgor Deisebau ac i anfon gohebiaeth yr Archwilydd Cyffredinol ymlaen atynt i'w ystyried.
Gau'r ddeiseb tra fod hyn yn mynd rhagddo.

**4.5P-03-311 Theatr Spectacle**

Cytunodd y Pwyllgor i:
Ysgrifennu at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn datgan pryderon y Pwyllgor Deisebau ac i anfon gohebiaeth yr Archwilydd Cyffredinol ymlaen atynt i'w ystyried.
Gau'r ddeiseb tra fod hyn yn mynd rhagddo.

**4.6P-03-314 Achub Theatr Powys a Theatr Ieuenctid Canolbarth Powys**

Cytunodd y Pwyllgor i:
Ysgrifennu at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn datgan pryderon y Pwyllgor Deisebau ac i anfon gohebiaeth yr Archwilydd Cyffredinol ymlaen atynt i'w ystyried.
Gau'r ddeiseb tra fod hyn yn mynd rhagddo.

**4.7P-04-339 Gorfodi Safonau Lles Anifeiliaid yn y Diwydiant Ffermio Cwn Bach yn Ne-Orllewin Cymru**

Cytunodd y Pwyllgor i:
Gyfeirio'r ddeiseb i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd gyda'r posibilrwydd iddo ei chynnwys yn ei flaenraglen waith.

### 4.8P-04-343 Atal dinistrio amwynderau ar dir comin - Ynys Môn

Cytunodd y Pwyllgor i:
Aros am ymateb gan y deisebwyr am y mater hwn.

### 4.9P-04-330 Cofnod Cymraeg yn ein Cynulliad ni

Cytunodd y Pwyllgor i:
Gyfeirio'r ddeiseb i'r pwyllgor a fydd yn craffu ar y Bil ieithoedd swyddogol, unwaith i'r Pwyllgor Busnes ddod i benderfyniad am hyn.

## 5. Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau - sesiwn dystiolaeth lafar

### 5.1P-03-144 Cwn Tywys y Deillion - lle sy'n cael ei rannu

Bu'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ateb cwestiynau gan y Pwyllgor am y mater.

### 5.2P-03-162 Diogelwch ar y ffyrdd yn Llansbyddyd

Bu'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ateb cwestiynau gan y Pwyllgor am y mater hwn a chytunodd i rannu'r cofnod o ddamweiniau gyda'r Pwyllgor.

### 5.3P-03-261 Atebion lleol i dagfeydd traffig yn y Drenewydd

Bu'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ateb cwestiynau gan y Pwyllgor am y mater hwn a chytunodd i rannu'r data o'r astudiaeth o dagfeydd traffic cynt ac wedyn gyda'r Pwyllgor. Bydd hwn ar gael fis nesaf.

### 5.4P-04-319 Deiseb ynghylch traffig yn y Drenewydd

Bu'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ateb cwestiynau gan y Pwyllgor am y mater a chytunodd i rannu'r data o'r astudiaeth o dagfeydd traffic cyn ac ar ôl gyda'r Pwyllgor, a fydd ar gael fis nesaf.

## 6. Papurau i'w nodi

### 6.1P-04-321 Gwasanaethau Trenau Arriva Cymru rhwng de-orllewin Cymru a de-ddwyrain Cymru

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.